

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 4)**

Y BIL TROSEDDU DIFRIFOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Troseddau Difrifol (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Mehefin 2014. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/seriouscrime.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Prif amcan polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil yw sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith bwerau cyfreithiol effeithiol i ymdrin â bygythiad gan droseddau difrifol a threfnedig.
4. Mae i'r Bil chwe Rhan:
 - Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adennill eiddo sy'n dod o enillion trosedd.
 - Mae Rhan 2 yn diwygio Deddf Camddefnyddiau Cyfrifiadurol 1990.
 - Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer trosedd newydd, sef cymryd rhan yng ngweithgareddau grŵp troseddau trefnedig ac yn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer diogelu'r cyhoedd rhag troseddau difrifol a gweithgarwch sy'n ymwneud â gangiau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 1 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 a Rhan 4 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 yn y drefn honno.
 - Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer atafaelu a fforffedu sylweddau a ddefnyddir fel cyfryngau i dorri cyffuriau.
 - Mae Rhan 5 yn diwygio'r gyfraith mewn perthynas â throseddau creulondeb i blant ac anffurfio organau cenhedlu benywod, sy'n darparu ar gyfer gorchmynion diogelu rhag anffurfio organau cenhedlu benywod ac yn creu trosedd newydd, sef bod â "llawlyfrau i bedoffilyddion" yn eich meddiant.
 - Mae Rhan 6 yn darparu ar gyfer awdurdodaeth alldiriogaethol neu ei hestyn mewn perthynas â'r troseddau yn adrannau 5 (paratoi ar gyfer gweithredoedd terfysgol) a 6 (hyfforddi ar gyfer terfysgaeth) o Ddeddf

Terfysgaeth 2006 ac yn rhoi cymeradwyaeth Seneddol (fel sy'n ofynnol o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2011) ar gyfer dau Benderfyniad drafft gan y Cyngor o dan Erthygl 352 o Gytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Mae Rhan 6 hefyd yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill a darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys darpariaethau ynglŷn â chymhwyso tiriogaethol a chychwyn.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch

5. Ceisir cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y gwelliannau a gyflwynwyd gan Theresa May, AS, yr Ysgrifennydd Cartref, yn Senedd y DU ar 12 Chwefror 2015.
6. Mae gwelliant NC8 yn disodli'r cyfeiriadau at bornograffi a phuteindra plant yn adrannau 48 i 51 o'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 gyda chyfeiriadau at gam-fanteisio'n rhywiol ar blant (heb newid sylwedd y troseddau perthnasol) a hefyd yn cyfyngu i oedolion y drosedd o loetran neu lithio at ddibenion puteindra.
7. Mae gwelliant NC9 yn diwygio Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae'n gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswydd ar bersonau sydd o fewn "proffesiwn a reoleiddir" yng Nghymru a Lloegr i wneud hysbysiad i'r Heddlu o fewn mis iddynt ddarganfod yr ymddengys bod gweithred o anffurfio organau cenhedlu benywod wedi'i gyflawni ar ferch dan 18 oed. Mae proffesiynau o'r fath yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd, gweithwyr gofal cymdeithasol ac athrawon. Mae'r ffordd y gall gweithiwr proffesiynol a reoleiddir "ddarganfod" yr wybodaeth hon wedi'i nodi yn isadrannau (3) a (4) o'r adran 5B newydd, a gaiff ei mewnosod yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 gan y cymal newydd hwn.
8. Mae gwelliant NC10 yn mewnosod adran 5C newydd i Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae hyn yn cyflwyno pŵer newydd sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar effaith y Ddeddf honno ac ar faterion eraill sy'n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau o'r fath.
9. Gellir dod o hyd i fanylion y gwelliannau yn yr Hysbysiad ynghylch Gwelliannau a roddwyd ar 12 Chwefror.
10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod NC 8 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau ag y mae'n ymwneud â "protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults" (pennawd 15 – llesiant cymdeithasol(dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GOWA").

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod NC9 a NC10 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau ag y maent yn ymwneud â "protection and well-being of children (including adoption and fostering of young adults" (pennawd 15 – llesiant cymdeithasol) o dan Ran 1 o Atodlen 7 i GOWA a "Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease." (pennawd 9 – iechyd a gwasanaethau iechyd) o fewn Atodlen 7 i GOWA.
12. Mae'r darpariaethau a amlinellir uchod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.
13. Nid yw'r darpariaethau a amlinellir uchod yn cynnwys pwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

14. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.
15. Ni ddylid cyfeirio at blant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol, boed hynny er budd ariannol neu resymau eraill, fel puteiniaid, a dylid eu cydnabod fel dioddefwyr. Nid yw cael gwared ar y cyfeiriadau at 'child prostitute' a 'child prostitution' yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 ('Deddf 2003') yn newid sgôp y troseddau perthnasol ond mae'n arwydd pwysig o sut y dylai cymdeithas drin plant sy'n cael eu hecsbloetio yn y modd hwn. Nid yw plant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn droseddwyr ac ni ddylent gael eu hystyried yn droseddwyr. Rhaid canolbwyntio'n bennaf ar orfodi'r gyfraith yn erbyn y tramgwyddwyr sy'n paratoi plant i gael eu hecsbloetio'n rhywiol.
16. Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn fath o gamdriniaeth, a gyflawnir yn aml ar blant, ac felly mae mynd i'r afael ag anffurfio organau cenhedlu benywod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae natur gydgyssylltiedig y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn golygu ei bod yn fwy effeithiol a phriodol i ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil DU a sicrhau eu bod yn dod i rym yng Nghymru ac yn Lloegr ar yr un pryd.

Goblygiadau ariannol

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Chwefror 2015

